**ADRODDIAD AR GANLYNIAD YMWELIADAU'R PANEL A PHRIF GYNGHORAU Cymru 2017**

## 1. Cyflwyniad

Ymwelodd aelodau o'r Panel â phob un o'r 22 o brif gynghorau yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017. Rhoes yr ymweliadau hyn, a gynhaliwyd dros yr haf/dechrau'r hydref rhoddwyd y canlynol i'r Panel:

Adborth ar Fframwaith Tâl Cydnabyddiaeth y Panel;

Gwybodaeth ansoddol am rôl bresennol a llwyth gwaith aelodau a sut y mae wedi datblygu ers ymweliadau blaenorol yn 2013;

Y cyfle i'r aelodau ennill dealltwriaeth well o swyddogaeth y Panel a sut y gwneir penderfyniadau.

Aeth 2 neu 3 o Aelodau'r Panel i bob ymweliad a chofnodwyd nodiadau manwl. Bu inni gyfarfod â chyfanswm o; 142 o aelodau gweithrediaethau; 280 o gynghorwyr eraill; 59 o aelodau cyfetholedig a 90 o brif swyddogion.

## 2. Prif Ganfyddiadau

- **Nid yw'r cyflog sylfaenol yn dâl cydnabyddiaeth digonol ar gyfer yr oriau sy'n cael eu gweithio: mewn llawer o achosion mae aelodau'n gweithio am lai na'r isafswm cyflog.**
- **Nid yw uwch-gyflogau'n dâl cydnabyddiaeth digonol ar gyfer y sgiliau a'r priodoleddau y mae eu hangen yn enwedig o'u cymharu â swyddi eraill yn y sector cyhoeddus.**
- **Mae llwyth gwaith a rôl aelodau wedi newid: mae'r oriau wedi cynyddu ac mae'r rôl bellach yn gofyn am agwedd fwy strategol a'r gallu i weithio gyda phartneriaid. Rhan o'r gwaith yn unig yw cynrychioli etholwyr erbyn hyn.**
- **Mae ansawdd y cymorth a roddir i aelodau yn broblem mewn rhai cynghorau.**
- **Mae amrywiaeth aelodaeth yn gwella'n araf deg ond mae sawl ffactor yn gallu milwrio yn erbyn amrywiaeth ehangach ymhlith bobl sy'n sefyll i gael eu hethol.**

**Mae'r rhain yn cynnwys cyndynrwydd aelodau presennol i gymryd y cyflog llawn ac i hawlio costau a threuliau rhag ofn y bydd ymateb andwyol o du'r cyhoedd.**

## 3. Cefndir

Roedd y cyflog sylfaenol a bennwyd yn wreiddiol gan y Panel yn seiliedig ar enillion cyfartalog Cymru Gyfan gyda chyfradd pro rata o dair rhan o bump. Bryd hynny, y farn oedd y byddai aelod o'r meinciau cefn yn treulio 23 i 25 awr yr wythnos ar fusnes y cyngor a'r etholaeth. Roedd unrhyw amser dros ben yn cael ei ystyried yn "ddisgownt gwasanaeth cyhoeddus". Pe bai'r un aliniad yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd byddai'r cyflog sylfaenol ymhell dros £15,000 yn hytrach na'r cyflog presennol o £13,600. Pennwyd uwch-gyflogau gan ddefnyddio lluosrif o'r cyflog sylfaenol.

## 4. Sylwadau ar yr ymweliadau

a) Etholiad 2017

Adroddodd bron pob un o'r cynghorau drosiant sylweddol mewn aelodaeth; roedd y cyfartaledd cyffredinol yn uwch na 30%. Roedd yn nodedig bod nifer o aelodau iau o'r ddau ryw yn y niferoedd newydd.

Fe welsom fod y cyfeiriad yn symud at broffesiynoldeb gwell i rôl cynghorydd.

b) Llwyth gwaith

Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r aelodau fod eu llwyth gwaith wedi cynyddu. Y thema gyffredin oedd bod hyn yn deillio o gyni yn y sector cyhoeddus a disgwyliadau cynyddol o du eu hetholwyr. Roedd yr olaf yn cael ei hyrwyddo gan y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a'r rhagdybiaeth y dylai aelodau roi ateb yn syth. Dywedodd llawer eu bod yn dal i fod yn gyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw fater p'un a yw'n fater i'r cyngor neu beidio.

Ychydig iawn yn unig ddywedodd fod modd ymdopi â'r llwyth gwaith o fewn y cyfnod tybiannol o 25/25 awr. Roedd barn yn dod i'r amlwg bod rhaid meddu ar sgiliau eiriolaeth yn ogystal â llywodraethu er mwyn bod yn aelod effeithiol.

c) Tâl Cydnabyddiaeth – Sylfaenol

Er eu bod yn cydnabod cyd-destun sefyllfa ariannol yr awdurdodau lleol roedd yr aelodau y bu inni gyfarfod â hwy, o bob un o'r pleidiau gwleidyddol yn teimlo nad oeddent yn cael digon o dâl i ryw raddau. Yn ôl rhai roedd yr oriau yr oeddent yn gorfod eu neilltuo i'r rôl yn golygu eu bod yn gweithio am lai na'r isafswm cyflog i bob pwrpas. Roeddent yn cydnabod ac yn deall bod rhwymedigaeth statudol ar y panel i gymryd fforddiadwyedd i ystyriaeth wrth wneud ei benderfyniadau a bod hyn o dan yr amgylchiadau presennol yn cyfyngu ar lefel codiadau i'r cyflog sylfaenol.

d) Tâl Cydnabyddiaeth – Uwch Aelodau

Mae Fframwaith y Panel yn cydnabod y dylai aelodau sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb ychwanegol gael eu gwobrwyo.

Arweinwyr/Aelodau Gweithredol: Ar sail tystiolaeth ymweliadau blaenorol a thrafodaeth ag uwch-aelodau, mae'r Panel o'r farn erioed bod ymgymryd â rôl aelod o gabinet yn gofyn i bob pwrpas am gyfraniad sy'n cyfateb i amser llawn (ond ddim o reidrwydd oriau gwaith arferol). Ni ddaethom o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad oedd hyn yn dal yn wir; mewn gwirionedd dywedodd yr aelodau gweithrediaeth hynny y bu inni gyfarfod â hwy eu bod yn rhoi llawer mwy o oriau i mewn y tu hwnt i'r hyn a gâi ei ystyried yn amser llawn. Roedd y farn hon yn cael ei hategu at ei gilydd gan swyddogion. Nid oedd hyn yn hepgor rhai a oedd mewn cyflogaeth ond fel rheol roedd ganddynt swyddi a oedd yn caniatáu hyblygrwydd. Roedd sawl cyngor wedi penodi aelodau newydd eu hethol i rolau’r Cabinet gan fod ganddynt sgiliau cydnabyddedig i ymgymryd â phortffolio penodol. Cawsom wybod am aelodau gweithrediaethau a oedd wedi cymryd cyfnod sabothol o'u swyddi ond a oedd wedi gorfod cymryd gostyngiad sylweddol yn eu henillion o ganlyniad i hynny.

Barn gyffredinol aelodau gweithrediaethau oedd nad oeddent yn cael eu talu’n ddigonol ond roeddent yn derbyn y mater fforddiadwyedd.

Ni chododd yr arweinwyr y bu inni gyfarfod â hwy swm eu taliadau ond dywedodd cydweithwyr heb flewyn ar eu tafod nad oedd taliadau i arweinwyr yn gydnaws â'r cyfrifoldeb sydd ynghlwm wrth y rôl a'u bod yn cymharu'n anffafriol â rolau eraill yn y sector cyhoeddus. Rydym yn credu bod y farn hon yn un ddilys ond bod hyn yn gorfod bod yn fater i'r tymor hwy yn wyneb y sefyllfa ariannol sydd ohoni.

Cadeiryddion Pwyllgorau: Gan y bydd gan bob cyngor wahanol strwythurau a blaenoriaethau ar gyfer ei lywodraethu byddwn yn cadw'r trefniadau presennol i gynghorau unigol benderfynu pa gadeiryddion a faint o gadeiryddion sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol.

Rhaid i daliadau uwch gyflogau gael eu cynnwys o fewn yr uchafswm nifer yr ydym wedi'i bennu ar gyfer pob cyngor.

e) Cymorth i Aelodau

Mae fframwaith y Panel yn pwysleisio y dylai aelodau gael mynediad i TG a chymorth arall i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Dylai hyn gynnwys ar y lleiaf y defnydd parod o e-bost a mynediad electronig i wybodaeth a chadw at yr egwyddor na ddylai aelodau fod ar eu colled wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Mae'r Panel wedi gweld bod ansawdd y cymorth i aelodau'n amrywio ledled Cymru ac mae aelodau wedi apelio i'r Panel fwy nag unwaith i ddyfarnu a yw system benodol ar gyfer mynediad i fand eang sy'n gofyn am gyfraniad gan yr aelod yn dod o fewn yr egwyddor hon.

Mae’r Panel o’r farn na ddylai fod yn eiriolwr rhwng awdurdodau lleol ac aelodau ynghylch yr hyn sy'n deg ac yn rhesymol i gefnogi’r aelodau wrth gyflawni eu rôl ond

cynigiodd yr ymweliadau'r cyfle i nodi ei bod hi'n dal yn wir bod rhai awdurdodau'n cynnig y cymorth lleiaf yn unig i'r aelodau, er enghraifft mynediad i TG mewn oriau swyddfa yn unig.

Codwyd annigonedd y cymorth i'r aelodau o safbwynt diffyg TG, diffyg ffonau a hefyd nododd llawer o aelodau'r meinciau cefn fod cymorth annigonol i swyddogion a chymorth ymchwil a oedd yn effeithio ar eu gallu i astudio a chyflwyno sylwadau ar gynigion polisi gan y weithrediaeth.

f) Llywodraethu

Daeth ychydig o faterion sy’n ymwneud â llywodraethu i’r amlwg:
Craffu – soniodd sawl cyngor fod rhai o’u haelodau wedi gwrthod eistedd ar bwyllgorau craffu. Roedd y rhesymau’n amrywio gan gynnwys diffyg amser a bod dim diben iddynt ac nac oeddent yn cael unrhyw effaith. Cwyn bellach oedd bod cymorth gan swyddogion ar gyfer y pwyllgorau craffu wedi cael ei gwtogi’n helaeth (oherwydd toriadau) a oedd yn effeithio ar ansawdd y gwaith,
Roedd yn ymddangos bod awdurdodau llai’n ei chael yn anodd dod o hyd i unigolion o blith eu haelodau â sgiliau i ddiwallu anghenion penodol oherwydd niferoedd cyfyngedig o gynghorau. Gallai hyn fod wedi cael ei gymhlethu yn y tymor byr oherwydd yr aelodau etholedig sydd newydd ddod i mewn.

g) Amrywiaeth

Mae'n destun calondid bod aelodaeth o ‘r awdurdodau lleol yn dechrau dod yn fwy amrywiol gyda menywod iau a mwy o fenywod yn dod i mewn i lywodraeth leol. Er hynny, maent yn dal yn y lleiafrif. Mae tystiolaeth bod talu cyflogau wedi bod yn ffactor wrth wella amrywiaeth. I ddyfynnu ymatebion oddi wrth ychydig o unigolion “Dydw i ddim yn gwneud hyn am yr arian ond allwn i mo'i wneud e heb yr arian”

Dylai ad-dalu costau gofal fod yn ffactor arall i hybu amrywiaeth ond mae'r nifer sy'n achub y cyfle yn siomedig o hyd ac mae llawer o aelodau a fyddai'n gymwys yn ymatal rhag ymgeisio oherwydd y canfyddiad y byddai'r cyhoedd yn eu beirniadu pan gâi hawliadau eu cyhoeddi. Rydym wedi cynnig y dewis i gynghorau gyhoeddi'r costau hyn fel cyfanswm heb enwi'r aelodau unigol.

h) Aelodau sy'n ildio taliadau

Mae ein penderfyniadau wedi cydnabod erioed fod gan unigolion yr hawl i beidio â chymryd y cyfan neu ran o unrhyw daliad ond buom yn glir bod rhaid iddynt hysbysu'r swyddog priodol yn ffurfiol am eu penderfyniad yn ysgrifenedig er mwyn gwneud hynny. Diben hyn yw goresgyn y posibilrwydd o orfodi aelodau i gymryd llai na'r cyflog penodedig er mantais wleidyddol ac er mwyn inni sicrhau cydymffurfiad a byddai’n tanseilio'r egwyddor o sefydliad annibynnol yn pennu taliadau pan roes Mesur y Gymraeg 2011 y pŵer i'r Panel i wneud hynny. Os yw aelodau o dan bwysau i gymryd llai na’r cyflog a bennir mae’n bosibl y bydd yn creu “ras i'r gwaelod” a

thanseilio gwerth cynghorydd. Yn anffodus mae yna ychydig o enghreifftiau lle'r ymddengys fod penderfyniadau grŵp wedi'u gwneud a lle bu pwysau ar bobl i beidio â chymryd codiadau cyflog. Mewn un achos cawsom wybod bod aelodau newydd wedi cael eu hysbysu am eu cyflog a hynny ar lefel o dan y swm penodedig, heb wybod ei fod yn £100 yn fwy. Yn yr un awdurdod dywedodd aelodau wrthym nad oedd y cyflog ar gyfer y rôl yn ddigonol ac i ddyfynnu un aelod o'r Cabinet "i mi mae £100 yn golygu tri phâr o esgidiau i'm plant.

i) Gweithio rhanbarthol a'r effaith ar lywodraethu

Codwyd hyn gan y mwyafrif o gynghorau fel mater lle gallai fod goblygiadau ar gyfer tâl cydnabyddiaeth. Byddwn yn asesu hyn dros yr ychydig fisoedd nesaf ag arweinwyr sy'n ymwneud â phrosiectau cyfredol.

j) Astudiaethau Achos

Rydym yn ystyried cynhyrchu astudiaethau achos o aelodau penodol i ddangos amrywiaeth o gefndiroedd yn achos aelodau presennol a hynt a helynt eu taith tuag at ddod yn gynghorwyr lleol. Y syniad sydd wrth wraidd hyn yw dangos ymrwymiad unigolion i wasanaethu eu cymunedau a chwalu'r myth mai gwasanaethu eu dibenion eu hunain yn unig yw bwriad cynghorwyr.

## 5. Materion eraill

Codwyd materion eraill sydd y tu hwnt i'n cylch gwaith ond cynhwysir y rhain fel materion i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

Taliadau dileu swydd/caledi : cododd nifer o gynghorwyr yr hyn a oedd yn driniaeth annheg yn eu barn hwy pan fyddant yn colli ei sedd neu'n ymddiswyddo o'u cymharu ag Aelodau Seneddol neu Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Statws cyflogeion awdurdod lleol sy'n dymuno sefyll mewn etholiad i'w cyngor: Rhaid iddynt ymddiswyddo pan fyddant yn cyflwyno eu henw ond nid yw hyn yn wir am etholiadau i'r Cynulliad neu Senedd y Deyrnas Unedig.

Cam-drin Aelodau: Cododd sawl aelod bryderon ynghylch lefel y gamdriniaeth yr oeddent yn ei dioddef. Cafwyd nifer o ddigwyddiadau difrifol sy'n faterion i'r heddlu ond ymddengys fod y cyfryngau cymdeithasol hefyd yn ffactor yng ngallu unigolion i ymosod ar aelodau os ydynt yn credu eu bod wedi methu ag ymateb yn gadarnhaol i gwynion/materion. Mae'r aelodau a gododd hyn yn credu y dylai rhyw fath o amddiffyniad/hyfforddiant gael ei ddarparu heb gost iddynt hwy eu hunain.

**John Bader**
**Cadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
**Rhagfyr 2017**